Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk



Aberystwyth

# Arfordir Ceredigion

*"Nid oes unman gwell na'r darn ysblennydd ac amrywiol hwn o forlin Ceredigion. Clogwyni dramatig, golygfeydd ysblennydd, diddordeb diwylliannol a threftadaeth a llond gwlad o fywyd gwyllt. Cadwch lygad am forloi a dolffiniaid, coedwigoedd hynafol a maglau pysgod canoloesol. Dyma gerdded heb ei ail ar y llwybr arfordir."*

**NIGEL NICHOLAS, Swyddog Llwybr Arfordir Cymru.**

## O Borth i Aberaeron

Mwynhewch awyr iach Cymru ar hyd morlin danheddog Ceredigion. Mwynhewch y tridiau hyn o antur gan aros dros nos yn Aberystwyth, neu gallwch aros ar hyd y ffordd ger yr anheddiad ar ddiwedd pob dydd.

## Cyrraedd

Mae gwasanaethau o'r rhan fwyaf o rannau o'r wlad yn cysylltu â threnau Aberystwyth yn Birmingham New Street neu'r Amwythig. Ceir bysiau uniongyrchol o Ogledd a De Cymru. I gael hyd i'r llwybr ewch i **trawscymru.info/routes/**

## Aros dros nôs

Tref farchnad hynafol yw Aberystwyth yn swatio dan lechweddau godidog Mynyddoedd Cambria. Casgliad hudolus o adeiladau Fictoraidd cain o liwiau'r enfys sydd yma. Ceir amrywiaeth helaeth o bethau i'w gwneud, a'r cyfan yn cyfrannu at lond tref o ryfeddodau diwylliannol.

## Llety

Yn Aberystwyth ceir amrywiaeth helaeth o lety – rhywbeth at ddant pawb!

**aberystwyth.org.uk/hotels/**

Mae Darganfod Ceredigion wedi datblygu canllaw llety defnyddiol i gerddwyr:

**discoverceredigion.co.uk/English/stay/accomodation/Pages/default.aspx**


## Bwyta Allan

Bydd digonedd o ddewis gennych am rywbeth i'w fwyta. Ceir yn Aberystwyth ddetholiad helaeth o gaffis, tafarndai, bwytai a chludfwyd, a'r un peth hefyd mewn llawer o drefi a phentrefi eraill ar hyd y ffordd.

**aberystwyth.org.uk/foodanddrink/**

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Arfordir Ceredigion

## Cyngor ar y Tir

Am fod Llwybr Arfordir Cymru'n dilyn y morlin yn agos, mae'n anochel y dewch chi ar draws erydiad, clogwyni serth a llwybrau creigiog. Cymerwch ofal, a chofiwch ddewis esgidiau a dillad sy'n briodol i'r amodau hyn ac sy'n addas i ragolygon y tywydd.

## Anhawster

Mae'r llwybrau'n dilyn pennau clogwyni tonnog a gallant weithiau fod yn eithaf pell o unrhyw dref, felly mae gofyn cael lefel dda o ffitrwydd a hyder wrth gerdded.

## Cludiant Cyhoeddus

Daw manylion cludiant gyda phob taith gerdded, ond cofiwch fwrw golwg ar amseroedd yma cyn ichi gychwyn **traveline.cymru** neu National Rail **nationalrail.co.uk** neu Trafnidiaeth Cymru **trctrenau.cymru/cy/hafan**


## Cludo Bagiau

Os ydych am aros mewn llety ar hyd y ffordd, gwnewch y siwrnai'n rhwyddach drwy ddefnyddio gwasanaeth cludo i drosglwyddo'ch bagiau i'ch cyrchfan nesaf.

**walescoastpath.gov.uk/plan-your-visit/planning-carrying-help/?lang=cy**

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Borth - Aberystwyth 6 milltir

*Chwe milltir o olygfeydd dramatig ac ysblennydd, sy'n dod i'w diweddglo yn nhref brifysgol hanesyddol Aberystwyth.*

## Dechrau

O Aberystwyth ewch ar y trên neu'r bws i orsaf fechan Borth. Gadewch yr orsaf a cherddwch syth ymlaen i'r môr cyn troi i'r chwith i ymuno â Llwybr Arfordir Cymru.

Ewch ymlaen ar hyd Stryd Fawr Borth heibio i'r caffis a'r siopau bychain nes cyrraedd cylchfan bach wrth ymyl yr orsaf bad achub; mae croeso i ymwelwyr bob amser felly arhoswch am ennyd i alw heibio, ymweld â'r siop a chael golwg ar y lle. Pan ddychwelwch i'r cerdded, ewch ar y ffordd i'r dde ar hyd glan y môr.

Ar ôl ychydig, trowch i'r dde ar hyd Cliff Road. Ym mhen draw Cliff Road, byddwch yn gadael palmentydd Borth, heibio i gofeb y Rhyfel Mawr cyn cychwyn ar daith gerdded ddramatig ar hyd y clogwyni tonnog.

Ewch heibio i Sarn Gynfelyn hynafol, sef tafod graean sy'n ymestyn allan i Fae Ceredigion. Dim ond yn ystod llanw isel iawn y datgelir y sarn hon, ac fe'i ffurfiwyd gan farian rhewlifol a adawyd gan lenni iâ ar ddiwedd yr oes iâ ddiwethaf.

Mae'n mynd un ar ddeg o filltiroedd allan i'r môr, a dim ond un bwlch bychan, gan ddod i ben wrth riff tanddwr.

Ymlaen â chi ar hyd y llwybr heibio i Fae Clarach nes cyrraedd Craig-glais, gyda golygfeydd godidog ar draws Aberystwyth a Bae Ceredigion. Mae yma gaffi clyd, a siambr dywyll ddiddorol iawn ar y copa. Ceir hefyd reilffordd halio i'ch cludo i lawr i'r promenâd, os yw'ch traed yn flinedig. Parhewch ar hyd Llwybr Arfordir Cymru i lawr i dref brifysgol a chastell hanesyddol Aberystwyth.

## Cludiant i fan cychwyn y daith

### Bws


Ceir trên uniongyrchol o Aberystwyth i Borth sy'n cymryd 12 munud ac sy'n gadael tua phob awr. Cofiwch fwrw golwg ar amseroedd y trenau cyn cychwyn.

### Trên

I deithio ar y bws, ewch ar fws 512 - Ynyslas - Aberystwyth drwy Bow Street o'r Stryd Fawr, Ffordd y Môr i Stryd Fawr Borth (a chychwyn y daith yma).

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Aberystwyth - Llanrhystud 10 milltir

***Cerddwch drwy gefn gwlad tonnog sy'n gyforiog o fywyd gwyllt, gan gadw llygad am ddolffiniaid a morloi yn ogystal â llu o wahanol adar môr. Bydd cyfle i gael pryd mewn tafarn yn y pen draw.***

## Dechrau

Cyn dechrau cerdded, efallai yr hoffech gasglu eich cinio gan un o werthwyr bwyd niferus Aberystwyth. Nid oes siop na chaffi ar hyd y llwybr hwn, felly cofiwch baratoi cyn ymadael.

Dechreuwch ar Lwybr Arfordir Cymru wrth Bier Brenhinol Aberystwyth; dim ond pier byr ydyw ond hwn oedd y cyntaf i agor yng Nghymru ym 1865. A'ch cefnau at y Pier, ewch ymlaen ar hyd y Promenâd Newydd heibio i'r hen goleg a chastell Aberystwyth. Ewch heibio i gwt lluniaeth 'HUT' a throwch i'r chwith ar hyd Ffordd y Cei.

Ymlaen â chi o gwmpas y Cei gyda'r harbwr / marina ar y dde ichi. Yn syth wedi'r Orsaf Pwmpio Dŵr o frics oren, trowch i'r chwith i ddringo grisiau cul wrth ymyl adeilad gwyn, a daw'r llwybr i'r golwg ar y brif ffordd; trowch i'r dde eto dros Afon Rheidol. Yn syth ar ôl y bont, ewch i'r dde ac ar hyd llwybr y glannau i draeth Tan y Bwlch.

Gan gefnu bellach ar Aberystwyth, a bryniau gwyrddlas ar y chwith, byddwch yn cychwyn ar daith gerdded donnog, ryfeddol i'r de. Yn aml, byddwch yn bell o bob man, ond bydd y môr a'r adar môr yn gwmni cyson a, thrwy lwc, efallai y gwelwch ddolffiniaid a morloi. Ewch ymlaen ar hyd yr arfordir nes cyrraedd yr A487 wedyn i'r chwith wrth y brif ffordd i gerdded i'r pentref lle mae tafarn, siop fechan a'ch bws yn ôl i Aberystwyth.

## Cludiant i fan cychwyn y daith

### Bws

Ewch ar fws T5 - Aberystwyth – neu T1 - Caerfyrddin – Aberystwyth yn ôl i Aberystwyth. Ceir bws tua phob hanner awr. Cofiwch fwrw golwg ar yr amseroedd cyn ichi gychwyn.

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Llanrhystud - Aberaeron 7 milltir

*Cefn gwlad godidog, yn llawn dop o dreftadaeth, bywyd gwyllt a syrffwyr. Daw'r daith glogwyn hon i ben yn Aberaeron, y trysor pennaf ym Mae Ceredigion.*

## Dechrau

Dilynwch yr A487 allan o'r pentref tua'r arfordir nes cyrraedd ffordd un trac ag arwydd ar y dde. Dilynwch y trac i'r môr ac yna trowch i'r chwith ar hyd marian, heibio i odynnau calch trawiadol ac ar draws tir fferm nes ichi gyrraedd yr Eglwys Blwyf yn Llansanffraid. Mae'n werth galw yn yr eglwys fach orielog i gael gweld y ffenestri gwydr lliw hardd. Yn y gorffennol, roedd Llansanffraid yn gartref i iardiau adeiladu llongau ffyniannus, a 55 o longau wedi'u hadeiladu yma rhwng 1786 a 1864.

O'r eglwys ceir dewis o lwybrau bellach. I osgoi anhawster posibl croesi nant ar y traeth (nad yw'n rhy anodd yn ystod yr haf) dilynwch y llwybr mewndir ag arwydd ac yn ôl i'r morlin yn Felin-y-Môr. Dilyna'r llwybr y môr, gan ddringo gan bwyll mewn tirwedd agored odidog nes cyrraedd pentref bychan Aberarth.

Dilynwch arwyddion y Llwybr Arfordir dros bompren ac yn ôl i'r morlin. Cadwch lygad barcud am rai o'r adar lleol sy'n ymweld; mae modd gweld y Barcud Coch, yr Hebog Tramor, y Frân Goesgoch a Chrec Penddu'r Eithin i gyd yn yr ardal. Mae'r traethau yma hefyd yn boblogaidd ymhlith syrffwyr felly fe allai math arall o fywyd môr eich swyno!

Ymlaen â chi ar hyd y Llwybr, gan gadw llygad am faglau pysgod hynafol ('goredi'), ac yna i borthladd Sioraidd deniadol Aberaeron, tref glan môr ddestlus lle bydd llond lle o gaffis a siopau'n barod i'ch gwobrwyo â phaned haeddiannol. Os byddwch yn ymweld ym mis Gorffennaf, cadwch lygad am Ŵyl Bwyd Môr Bae Ceredigion neu efallai yr hoffech goroni'ch diwrnod yn gwylio dolffiniaid. O Aberaeron, ewch ar y bws yn ôl i Aberystwyth.

## Cludiant i fan cychwyn y daith

### Bws

Ewch ar fws T5 - Aberystwyth o Sgwâr Alban (Safle 3), Ffordd y Gogledd i Aberystwyth. Mae bysiau'n gadael bob hanner awr a'r siwrnai'n cymryd 40 munud. Cofiwch fwrw golwg ar yr amseroedd cyn cychwyn.

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk


Aberaeron – Cei Newydd


Cychod gwylio dolffiniaid o Aberaeron


Aberystwyth

# Arfordir Ceredigion

## Atyniadau ychwanegol tra byddwch yn yr ardal

### Cychod gwylio dolffiniaid o Aberaeron

Mae cychod RIB i wylio dolffiniaid yn gadael o Aberaeron bob dydd drwy gydol yr haf. Cewch awr o fordaith arfordirol ar gwch RIB 8.5 metr, yn edrych am ddolffiniaid trwynbwl gwych Bae Ceredigion. Mwynhewch y golygfeydd a mathau eraill o fywyd gwyllt fel llamidyddion, morloi a miloedd o adar môr wrth i'r cwch sgubo i lawr yr arfordir.

**dolphin-tours.co.uk**

### Rheilffordd Cwm Rheidol Aberystwyth

"Chwythiad o'r chwiban a hisian y stêm ac i ffwrdd â chi! Eisteddwch yn ôl, ymlaciwch a gadewch inni fynd â chi ar siwrnai hiraethus drwy rai o olygfeydd mwyaf aruthrol Cymru".

Teithio ar Reilffordd Cwm Rheidol yw'r ffordd ddelfrydol o weld ysblander Cwm Rheidol.

Ewch drwy gaeau agored helaeth, coetir a golygfeydd mynyddig garw wrth i'r rheilffordd droi a throelli'n dynn wrth y llechwedd gan ddringo'n raddol bron 700 troedfedd (200m) o Aberystwyth i gyrraedd pen y daith ym Mhontarfynach. Gwelir adar ysglyfaethus fel Barcud Coch a Boncathod yn rheolaidd yn hedfan fry uwchben llawr y dyffryn.

**rheidolrailway.co.uk**

### Siambr Dywyll

Ym mhen draw'r Promenâd yn Aberystwyth, ar ben Craig-glais, mae'r Siambr Dywyll fwyaf yn y byd. Mae'r lens enfawr 14 modfedd yn cadw llygad barcud ar fwy na 1000 milltir sgwâr o dir a morlun gan ysgubo 360 gradd o amgylch Aberystwyth, sef golygfa a adlewyrchir ar y sgrin gylchol yn yr oriel wylio dywyll islaw.

**cardigan-bay.com/cliff-railway-camera-obscura-aberystwyth.php**

### Rheilffordd y Graig, Aberystwyth

Hon yw'r rheilffordd halio drydanol hiraf ar glogwyn ym Mhrydain a'r unig un yng Nghymru. Mae ei 778 troedfedd o drac a'i cherbydau ar ogwydd ymhlith campweithiau peirianneg y Fictoriaid. Agorodd ym 1896 a bu'n gweithredu ar system dŵr cytbwys ond, ers 1921, modur trydan pwerus a dau gebl dur ucheldynnol sy'n halio'r cerbydau bedair milltir yr awr, gan roi amser ichi fwynhau'r golygfeydd panoramig wrth ddringo i orsaf y copa a rhyfeddu at ddyfeisgarwch y Fictoriaid

**aberystwythcliffrailway.co.uk**

### Amgueddfa Ceredigion

Mae gan Amgueddfa Ceredigion gasgliad o fwy na 60,000 o wrthrychau sy'n darlunio treftadaeth amrywiol sir Geredigion. Amrywia'r eitemau'n helaeth, o blisg cnau bychain wedi'u cerfio'n ddyrys gan forwyr, i dri llawr o theatr Colisëwm Edwardaidd ysblennydd. Mae'r darnau cynharaf yn archwilio'r cyfnod Neolithig, a'r rhai modern yn datgelu'r sir yn newid yn y 1970au. Yn ogystal ag amgueddfa, ceir cyfle i fwynhau nosweithiau ffilm, perfformiadau a gweithdai. Ceir hefyd caffi prysur sy'n gweini cynnyrch lleol.

**amgueddfaceredigion.cymru**

### Gorsaf Bad Achub Borth

Gallwch ymweld â gorsaf bad achub Borth y rhan fwyaf o ddiwrnodau pan fydd y siop ar agor drwy ofyn am gael gweld y lle. Mae'r criw'n hyfforddi pob bore Sul rhwng 10-00 a 12-00, ac mae croeso i ymwelwyr.

**borthlifeboat.org.uk**